

Appendix 3



Fy ffrind, Tom

There is a recording of the following presentation on the accompanying DVD - File 1.

South Wales version

Dyma fy ffrind Tom. Mae Tom yn ddeg oed ac mae ei ben-blwydd ar Ebrill 3. Mae e'n byw yn 17, Stryd Hir, Abertawe gyda'r teulu. Mae chwaer 'da fe o'r enw Sally ond does dim brawd 'da fe. Mae ci mawr du 'da fe – Jac. Mae e'n dwlu ar Jac achos mae e'n gi drwg ac yn bwyta esgidiau mam!

Mae e'n dal iawn ac yn gryf. Mae llygaid mawr glas 'da fe a gwallt byr, syth melyn. Fel arfer mae e'n gwisgo tracwsg glas a melyn a treinyrs du achos mae e'n chwarae pêl-droed bob dydd.

Hobi Tom ydy chwarae pêl-droed. Mae Tom yn chwarae pêl-droed i dîm clwb y Mwmbwls bob dydd Sadwrn ac mae e'n cefnogi Man U. Dydy Tom ddim yn hoffi darllen o gwbl achos mae'n ddiflas. Mae'n well 'da fe chwarae gemau ar y cyfrifiadur. Hoff gêm Tom ydy *Terminator* achos mae e'n gallu chwarae'n dda iawn.

Dydd Sul, es i i weld gêm bêl-droed gyda Tom. Roedd yn wych. Dw i'n hoffi pêl-droed hefyd fel Tom ond dw i'n cefnogi Abertawe. Dyma Tom – mae e'n ffrind da.

